

Cymuned Artis a Proper Design

A all porth ar-lein i rannu data ar effaith gymdeithasol helpu sefydliadau'r celfyddydau cymunedol i fod yn fwy effeithiol a mwy cyllidadwy?

— Cred **Cymuned Artis** yng ngrym trawsnewidiol creadigrwydd i wneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd pobl. Crëwn gyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni dawns greadigol a'r celfyddydau gweledol ledled cymoedd de Cymru a thu hwnt. Gweithiwn mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol lleol, sefydliadau celfyddydol proffesiynol, ysgolion ac addysg uwch, gan ddatblygu darpariaeth i ysbrydoli pobl o bob oed a gallu.

— Asiantaeth ddigidol fach yng Nghaerdydd yw **Proper Design**. Mae ein tîm o ddylunwyr a datblygwyr yn gweithio gyda sefydliadau o bob maint i ddatrys anghenion busnes penodol. Yn flaenorol, bu Proper yn gweithio gyda nifer o artistiaid unigol, sefydliadau celfyddydol a sefydliadau eraill yn y trydydd sector.

— Mae'r **Gronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru**, yn bartneriaeth strategol rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru a Nesta. Mae'n olynydd y Gronfa Ymchwil a Datblygu Digidol ar gyfer y Celfyddydau yng Nghymru a oedd ar gael o 2013 i 2015. Mae'r gronfa'n cynorthwyo sefydliadau celfyddydol i arbrofi gan ddefnyddio technoleg ddigidol er mwyn cyrraedd mwy o gynulleidfaedd neu ddatblygu eu model busnes.

innovation.arts.wales
arloesi.celf.cymru

Tabl cynnwys

Cyflwyniad	4
Ein her strategol	5
Cwestiynau ymchwil	7
Cyflawni'r prosiect	9
Gweithdy cychwynnol y prosiect	11
Prototeip y porth	12
Gweithdy profion defnyddwyr 1	13
Gweithdy profion defnyddwyr 2	14
Arolwg y celfyddydau cymunedol	15
Camau nesaf	19
<hr/>	
Atodiad	21
Tîm y prosiect	21
Amserlen a chyllideb	22
Categoriâu effaith gymdeithasol	23
Effaith Celfyddydau Cymru	25
Grŵp Profion Defnyddwyr – Gweithdy 1	
Trosolwg	32
Nodiadau llawn y sesiwn	33
Newidiadau	36

Cyflwyniad

A all porth ar-lein i rannu data ar effaith gymdeithasol helpu sefydliadau'r celfyddydau cymunedol i fod yn fwy effeithiol a mwy cyllidadwy?

Mae dau rym yn gyrru celfyddydau cymunedol. Y cyntaf yw cynnig gweithgarwch cyfranogol artistig o ansawdd uchel. Yr ail yw i'r profiad hwnnw fod yn drawsnewidiol i fywydau'r bobl a'r cymunedau sy'n cymryd rhan, yn aml drwy roi llais i bobl, neu ffordd i fynegi eu hunain yn wyneb anfantais.

Ond nid hawdd bob amser yw mesur effaith drawsnewidiol ar unigolion – weithiau, bydd yr effaith mwyaf pwerus yn 'feddal' neu'n anfesuradwy, gallai'r buddion gael eu gwredu amser hir ar ôl i ymyriad ddigwydd, neu efallai nad yw'n bosib gwahanu dylanwad ffactorau eraill a arweiniodd at y newid hwnnw.

Ond yn ein hamgylchedd cyllido heriol, pwysicach nag erioed yw bod modd inni ddangos effaith ein gwaith mewn ffordd gadarn. Mae'r adnoddau sydd ar gael i gelfyddydau cymunedol o ffynonellau traddodiadol yn lleihau mewn termau absoliwt, ac mae nifer gynyddol o sefydliadau celfyddydol yn cyflawni ymarfer sy'n ymgysylltu'n gymdeithasol, gan olygu bod mwy o gystadleuaeth am yr hyn sydd ar gael.

Daethom i'r farn bod bellach angen porth i ddwyn ynghyd y data a gaiff ei gipio ar effaith gweithgarwch celfyddydau cymunedol yng Nghymru. Credwn fod hwn yn gam angenrheidiol ar y daith tuag at godi safonau tystiolaeth yn y sector. Drwy'r broses hon o ymchwil a datblygu, dechreuom sefydlu sut beth allai hyn fod a beth yw agwedd y sector tuag at y syniad.

Ein teitl gweithio i'r prosiect hwn yw Effaith Celfyddydau Cymru.

Rydym wedi creu prototeip a'i brofi gyda sefydliadau'r celfyddydau cymunedol. Rydym bellach yn y broses o gynyddu faint o ddata sydd ar gael ar y porth fel bod modd inni ddechrau profi'r syniad gyda chyllidwyr a rhanddeiliaid eraill er mwyn denu eu cefnogaeth. Hyd yn oed yn yr amser byr ers inni gychwyn ar y prosiect hwn, rydym wedi hwyluso llawer o sgysiau ynglŷn â sut y down â'r dystiolaeth angenrheidiol at ei gilydd i ddangos yn glir y grym unigryw sydd gan gelfyddydau cymunedol i drawsnewid bywydau.

Ein her strategol

Caiff y prosiect hwn ei gynnal gan Gymuned Artis, a chaiff ei gyflawni mewn partneriaeth ag Artworks Cymru, sef menter y sector sy'n cynnwys y rhan fwyaf o sefydliadau'r celfyddydau cymunedol yng Nghymru.

Caiff y prosiect hwn ei gynnal gan Gymuned Artis, a chaiff ei gyflawni mewn partneriaeth ag Artworks Cymru, sef menter y sector sy'n cynnwys y rhan fwyaf o sefydliadau'r celfyddydau cymunedol yng Nghymru.

Sefydliad celfyddydau cymunedol yw Gymuned Artis sy'n seiliedig ym Mhontypridd. Gweithiwn gydag artistiaid, cymunedau ac unigolion ledled Rhondda Cynon Taf a thu hwnt, gan gynnwys sefydliadau proffesiynol a chymunedol, ysgolion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Ein nod yw ysbrydoli pobl o bob oed a gallu i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o ffurfiau celf. Mae ein gwaith yn dangos pwysigrwydd y celfyddydau wrth wella lles, datblygu cymunedau a gwella sgiliau a chyrhaeddiad addysgol.

Rhaglen 2 flynedd yn seiliedig yng Nghymru yw ArtWorks Cymru, wedi'i ariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn Foundation a Chyngor Celfyddydau Cymru. Daw â chonsortium o bartneriaid at ei gilydd, gan gynnwys artistiaid a sefydliadau celfyddydol, sy'n cyflenwi'r celfyddydau cyfranogol ledled Cymru. Ei nod yw datblygu arferion gorau a chynorthwyo datblygiad proffesiynol yn y sector.

Y nodau strategol hirdymor a rannwn mewn perthynas â'r prosiect hwn yw:

- Darparu tystiolaeth gryfach o gyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydau cymunedol gan arwain at ganlyniadau trawsnewidiol mewn unigolion a chymunedau.
- Creu màs critigol o ddata a all fod yn sylfaen i ddatblygu busnes mewn sefydliadau celfyddydol, yn arbennig mewn perthynas ag asesu cyllid 'ar wahân i'r celfyddydau'.
- Cynorthwyo comisiynwyr prosiectau a sefydliadau celfyddydol i ddylunio a chyflawni gwell prosiectau drwy ddarparu tystiolaeth o arferion da a chanlyniadau go iawn.

Er bod tystiolaeth academiaidd yn bodoli ynglŷn ag effaith gweithgarwch celfyddydau cymunedol, cyfyngedig yw'r data a gaiff ei gipio, ei ddadansoddi a'i rannu gan sefydliadau'r celfyddydau cymunedol fel rhan o'u gweithrediadau arferol. Efallai nad oes ganddynt fynediad at yr adnoddau na'r arbenigedd i gynnal gwaith ymchwil drylwyr i effaith eu gwaith, neu mewn rhai achosion byddai astudiaeth ddwys ar ymyriad celfyddydau cymunedol graddfa fach yn tynnu oddi wrth y gweithgaredd craidd. Rhaid bod modd i'r porth hwn ddarparu adnodd cyflym a syml i rannu a dadansoddi'r data ynglŷn ag effaith gymdeithasol y celfyddydau cymunedol, i'n galluogi i godi safonau tystiolaeth dros amser.

Er mwyn i Borth Effaith y Celfyddydau fod yn llwyddiannus, bydd yn rhaid iddo greu màs critigol o ddata. Byddai hyn yn galluogi cynnal astudiaeth o'r data a gesglir ar draws y sector, a fyddai yn ei thro yn helpu i ddarparu sylfaen i'w wella. Bydd sicrhau bod swmp sylweddol o ddata ar gael drwy'r porth hefyd yn helpu i sicrhau cefnogaeth gan sefydliadau'r celfyddydau cymunedol a chyllidwyr, fel ffynhonnell werthfawr o wybodaeth a syniadau y byddant eisiau cyfrannu ati. Gyda mwy o ymwybyddiaeth o ble a sut y mae sector y celfyddydau cymunedol yn cyflawni effaith gymdeithasol, credwn y gall sefydliadau'r celfyddydau cymunedol fod yn fwy effeithiol a mwy cyllidadwy.

Long term aim is
to collect better

specific input data

Cwestiynau ymchwil

Datblygom y cwestiwn ymchwil trosfwaol canlynol:

A all porth ar-lein i rannu data ar effaith gymdeithasol helpu sefydliadau'r celfyddydau cymunedol i fod yn fwy effeithiol a mwy cyllidadwy?

I ateb y cwestiwn hwn, ymchwiliom i'r canlynol:

Sut gall ein porth effaith gymdeithasol ddiwallu anghenion sector y celfyddydau cymunedol? Pa nodweddion sydd eu hangen arno i wneud hyn yn effeithiol?

Pa fanylion technegol sydd eu hangen er mwyn inni greu porth sydd yn ddigon hyblyg fel bod modd cyflwyno ac adrodd data yn syml a chyflym?

Pa agweddau sy'n bodoli yn sector y celfyddydau cymunedol tuag at rannu data ar effaith gymdeithasol, a dadansoddi data sefydliadau eraill?



Cyflawni'r prosiect





Cynhaliom y gweithgareddau canlynol fel rhan o'n hymchwil a datblygu:

Gweithdy cychwynnol y prosiect

Cynhaliom weithdy gyda phartneriaid ArtWorks Cymru i gasglu adborth cychwynnol ar ein syniadau a recriwtio sefydliadau i'n gweithdai profion defnyddwyr.

Creu prototeip o'r porth

Creom brototeip gweithredol o'r porth gan ddefnyddio Wordpress i brofi ein model data a sut byddai'n gweithio yn sylfaenol.

Gweithdy profion defnyddwyr cyntaf

Cynhaliom hanner diwrnod o weithdy i brofi'r prototeip gyda sefydliadau'r celfyddydau cymunedol, gan ganolbwyntio i gychwyn ar gyflwyno data, er mwyn nodi unrhyw welliannau a datblygiadau pellach sydd eu hangen.

Ail weithdy profion defnyddwyr

Yn yr ail hanner diwrnod o weithdy profion defnyddwyr, cyflwynom brototeip wedi'i ddatblygu ymhellach a oedd yn cynnwys ffurflenni i ychwanegu sefydliadau a phrosiectau. Ein nod oedd barnu a allai'r defnyddwyr gael data presennol eu prosiectau i ffitio.

Arolwg y celfyddydau cymunedol

Yn ogystal â chynnal gweithdai profion defnyddwyr, cynhaliom arolwg o sector ehangach y celfyddydau cymunedol i ddeall eu barn a'u harferion mewn perthynas â chasglu a rhannu data ar effaith gymdeithasol eu gwaith.



Newidiadau i gyflawni'r prosiect Gwnaethom y newidiadau canlynol i'n dull o gyflawni'n gwaith ymchwil a datblygu:

Ein bwriad gwreiddiol oedd adeiladu prototeip a allai reoli a dadansoddi data. Er y byddai'r gallu hwn yn bwysig i lwyddiant y porth 'masnachol' terfynol, wedi inni ddechrau gweithio ar y prosiect sylweddolom y byddai angen mwy o amser datblygu a phrofi nag oedd gennym i gynnwys yr elfen hon yn y cyfnod hwn.

Gobeithiem ymgysylltu'n uniongyrchol â nifer fawr o sefydliadau a chomisiynwyr y celfyddydau cymunedol. Byddai'n well gennym fod wedi cael tua dwywaith cymaint o sefydliadau'r celfyddydau cymunedol yn rhan o hyn, ac er inni recriwtio llawer mwy nag oedd angen, roedd lefelau is yn bresennol yn sesiynau profion y defnyddwyr na'r hyn a obeithiem. Er bod llawer o sefydliadau'r celfyddydau cymunedol yn frwdfrydig ynglŷn â'r syniad, prin iawn o gapasiti rhydd oedd ganddynt i neilltuo amser staff i hyn ar y cam datblygu cynnar hwn. Bu ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus fel comisiynwyr arfaethedig gweithgarwch y celfyddydau cymunedol hefyd yn anoddach na'r disgwyl. Wrth inni gynyddu maint y data sydd ar gael ar y porth, ac wrth i'r hyn y gall y porth wneud ddod yn fwy gorffenedig, credwn y bydd yn haws annog rhanddeiliaid i ymwneud â'r broses ddatblygu.

Gweithdy cychwynnol y prosiect

Sut gall ein porth effaith gymdeithasol ddiwallu anghenion sector y celfyddydau cymunedol? Pa nodweddion sydd eu hangen arno i wneud hyn yn effeithiol?

Yn gynnar yn y broses, cynullwyd gweithdy i ymarferwyr a chyllidwyr y celfyddydau cymunedol i gasglu adborth cychwynnol ar ein syniadau.

Nod y gweithdai oedd:

- Deall amrywiaeth yr effeithiau a'r canlyniadau cymdeithasol y gobeithia'r sector eu cyflawni drwy ei ddarpariaeth o gelfyddydau cyfranogol, a sut y cânt eu cofnodi.
- Cynnig system sgorio i gwmpasu'r holl brosiectau a'r canlyniadau sy'n berthnasol i sector y celfyddydau cymunedol.
- Nodi sefydliadau'r celfyddydau cymunedol a fyddai'n barod i ymuno â'n grŵp o brofion defnyddwyr i brofi prototeip ein porth, a rhannu eu data ar effaith gymdeithasol eu gwaith.

Lluniom restr hir o effeithiau cymdeithasol; byddai rhai ohonynt yn hawdd eu mesur ac eraill yn llawer mwy cymhleth i'w dangos mewn ffordd ystyrlon. Nodwyd categorïau'r effeithiau cymdeithasol, ac mae'r rhestr hir o'r gweithdy y maent yn seiliedig arni wedi'i chynnwys fel atodiad.

Cytunai'r holl gyfranogwyr mewn egwyddor y byddai'n bosib cyflwyno system sgorio pum pwynt i roi synnwyr cyffredinol o ba mor effeithiol y bu i unrhyw ymyriad y celfyddydau cymunedol 'berfformio' o ran cyflawni'r effaith gymdeithasol a fwriadwyd.

Yn y gweithdy, trafodom y ffyrdd y byddai angen i'r porth fod yn hyblyg er mwyn diwallu anghenion sector y celfyddydau cymunedol. Dwedodd cyfranogwyr y gweithdy wrthym y byddai angen i'r porth fodloni'r canlynol:

- Cyweddu â deddfwriaeth allweddol – er enghraifft, y canlyniadau cymdeithasol sydd wedi'u cynnwys yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cyweddu â gofynion adrodd cyllidwyr niferus sy'n gofyn am ddefnyddio templedi gosod.
- Caniatáu i gofnodi canlyniadau nad oedd yn ddisgwyliedig ar ddechrau'r prosiect.
- Addas i waith ar sail prosiect, rhaglenni gweithgarwch parhaus, a phrosiectau aml-flwyddyn.

Prototeip y porth

Pa fanylion technegol sydd eu hangen er mwyn inni greu porth sydd yn ddigon hyblyg fel bod modd cyflwyno ac adrodd data yn syml a chyflym?

Roedd gwaith datblygu technegol y porth yn ystod y prosiect ymchwil a datblygu hwn yn canolbwyntio ar y nod y ddatblygu model data i ddisgrifio effaith gymdeithasol prosiectau'r celfyddydau cymunedol. Nodom y nodweddion canlynol fel man cychwyn i'r gwaith datblygu. Byddai angen i'r porth fodloni'r canlynol:

- Caniatáu i sefydliadau celfyddydol, cyllidwyr ac eraill lanlwytho data prosiectau a chyfranogwyr yn hawdd.
- Caniatáu i'r data a lanlwythwyd gael ei rannu, drwy fwydo'n uniongyrchol i mewn i blatfformau eraill, a thrwy allforio'r data mewn fformatau ffeiliau data agored traddodiadol y gellir eu darllen yn hawdd gan bobl a chyfrifiaduron.

Yn y tymor hir, byddem yn rhagweld y byddai'r platfform hwn yn cynnwys dull ar y we i adrodd a dadansoddi er mwyn i weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau cymunedol ac eraill ystyried y data y mae'r sefydliadau celfyddydol yn ei gyflenwi.

Cynhaliom dri chynnod o ddatblygu technegol, gyda phob cynnod yn adeiladu ar y cynnod blaenorol:

Cynnod 1 – Prototeip yn defnyddio gwasanaethau oddi ar y silff (AirTable)

Aethom ati i adeiladu prototeip o'r model data gan ddefnyddio platfform ar-lein, AirTable, sydd am ddim i'w ddefnyddio. Drwy greu'r cysylltiadau rhwng gwahanol fathau o ddata roedd modd inni nodi problemau gyda'n strwythur data cychwynnol ac roedd defnyddio'r ateb oddi ar y silff hwn yn caniatáu inni iteru'n gyflym i gywiro'r materion hynny.

Cynnod 2 – Prototeip mwy cyflawn a llunio'r model data terfynol (Wordpress)

Aethom ati wedyn i adeiladu ail brototeip gan ddefnyddio Wordpress. Ar y cam hwn, cynhaliom ein gweithdy cyntaf o brofion i ddefnyddwyr.

Cynnod 3 – Ychwanegu ffurflen mewbynnu pen blaen a phorth "fy nata"

Gan adeiladu ar yr ail brototeip, dechreuom adeiladu'r model data a ffurflenni pen blaen. Byddai'r rhain yn caniatáu i sefydliadau'r celfyddydau cymunedol lanlwytho eu data eu hunain. Ar y cam hwn, cynhaliom ein hail weithdy o brofion i ddefnyddwyr.

Model data syml

At ddiben y gwaith ymchwil a datblygu hwn, rydym wedi tybio bod gan bob prosiect yn y celfyddydau cymunedol un canlyniad cymdeithasol. Er ein bod yn cydnabod y gallai fod i brosiectau fwy nag un amcan, mae'r dull hwn yn tybio bod ganddynt brif amcan y gellir mesur eu llwyddiant yn ei erbyn (e.e. lleihau diweithdra, gwell boddhad bywyd, lleihau gordewdra ac ati). Mae'r dybiaeth hon yn hanfodol gan ei bod yn caniatáu model data llawer iawn symlach nad yw'n dibynnu ar ddisgrifio pob cyfnewid a chyfuniad o amcanion.

Datblygu pellach

Er bod hynny y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn, mae'r fframiau gwifren isod yn cynrychioli nod hirdymor y platfform hwn – offeryn hawdd ei ddefnyddio i archwilio effaith gymdeithasol gweithgarwch y celfyddydau cymunedol ledled Cymru.



Gweithdy profion defnyddwyr 1

Wedi inni ddatblygu prototeip cyntaf y porth yn Wordpress, cynhaliom ein grŵp cyntaf o brofion defnyddwyr ar 15fed Rhagfyr 2016. Daeth pedwar o gynrychiolwyr o sefydliadau'r celfyddydau cymunedol i'r hanner diwrnod o weithdy. Cyftwynom y prototeip a gwahodd y cyfranogwyr i geisio mewnbynnu data o brosiectau go iawn gan ddefnyddio'r meysydd a ddarparwyd. Trafodom a oedd y model yn ddigon hyblyg i ddiwallu eu hanghenion adrodd.

Mae adroddiad llawn y profion defnyddwyr wedi'i gynnwys fel atodiad.

Lle'r oedd angen gwneud mân newidiadau, gwnaed y rhain yn ystod y gweithdy ei hun. Lle'r oedd yn glir bod angen gwneud newidiadau ond eu bod yn rhy gymhleth i'w gwneud yn ystod y gweithdy, cawsant eu nodi er mwyn eu cynnwys mewn gwaith i ddatblygu'r porth yn nes ymlaen. Casglwyd pwyntiau trafod yn y gweithdai hefyd.

Mân newidiadau

Dyma rai o'r mân newidiadau a wnaed yn ystod y gweithdy ei hun:

- Ychwanegu maes 'cod post' i ganiatáu i ddefnyddwyr ddod o hyd i sefydliad ar sail ei leoliad.
- Ychwanegu maes 'partner prosiect'.
- Creu bandiau i feysydd costau'r prosiect a hyd y prosiect.
- Creu tacsonomi o ffurfiau celf.

Datblygu i'r dyfodol

Roedd y datblygiadau mwy sylweddol a awgrymwyd i'w gwneud i'r dyfodol yn cynnwys:

- Nodiadau esboniadol ac enghreifftiau ym mhob rhan o'r porth er mwyn osgoi amwysedd.
- Y gallu i lanlwytho gwybodaeth ategol, fel ffordd i ategu'r data a ddarperir a chaniatáu i ddata ansoddol gael ei ychwanegu.
- Rhoi eglurhad o gategoriâu effaith gymdeithasol a ddiffiniwyd gan y porth. Cynigwyd y syniad o ganiatáu cymylau tagiau i gael eu cynnwys ym mhob categori fel ffordd i roi mwy o hyblygrwydd.

Meysydd i ymchwilio iddynt ymhellach

Roed rhai o'r pwyntiau trafod ehangach yn y gweithdy yn cynnwys:

- Yr angen am fwy o safonau o dystiolaeth ar draws y sector ac anawsterau sicrhau cysondeb wrth adrodd.
- Yr amrywiaeth eang o ofynion adrodd y mae sefydliadau'r celfyddydau cymunedol yn wynebu wrth adrodd i nifer o gyllidwyr.
- Pwysigrwydd dadansoddi data presenoldeb a chyfranogi yn fanwl i ddangos gwaith y sector wrth ddenu unigolion a chymunedau i ymgysylltu dros amser.
- Heriau disgrifio 'costau' ymyriadau cymunedol yn gywir a chyson, sydd wrth eu natur yn aml yn cynnwys cyfraniadau sylweddol ar wahân i arian.

Gweithdy profion defnyddwyr 2

Ar ôl gwneud gwaith datblygu technegol pellach ar y porth ar sail canlyniadau'r gweithdy blaenorol, cynhaliwyd ein hail rownd o brofion i ddefnyddwyr ar 27ain Ionawr 2017. Daeth chwech o gynrychiolwyr sefydliadau'r celfyddydau cymunedol i'r gweithdy, a chawsant eu tywys drwy'r broses o gyflwyno data gan ddefnyddio'r porth. Fel yn y gweithdy blaenorol, gwnaethom fân newidiadau, nodi meysydd i'w datblygu ymhellach, a chasglu pwyntiau trafod ehangach.

Mae adroddiad llawn y profion defnyddwyr wedi'i gynnwys fel atodiad.

Mân newidiadau

Dyma rai o'r mân newidiadau a wnaed yn ystod y gweithdy ei hun:

- Manylion cyswllt llawn y sefydliadau – yn ychwanegol i faes cod post a ychwanegwyd yn flaenorol.
- Maes cyfeiriad gwefan y sefydliad i gynnwys 'http://' yn awtomatig cyn gweddill y cyfeiriad.
- Newid botwm 'Submit query' i 'submit project' er eglurder.

Datblygu i'r dyfodol

Roedd y datblygiadau mwy sylweddol a awgrymwyd i'w gwneud i'r dyfodol yn cynnwys:

- Y gallu i gyfateb a chyfuno cyflwyniadau lle mae prosiectau neu sefydliadau wedi'u dyblygu – er enghraifft, lle y defnyddiwyd enwau neu sillafu fymryn yn wahanol.
- Geirfa glir a chyson mewn perthynas ag amcanion, cyflawniadau, canlyniadau ac effaith. Roedd angen esboniad pellach hefyd o'r system pum pwynt a gâi ei defnyddio i farnu perfformiad pob ymyriad yn y celfyddydau cymunedol sy'n cael eu cynnwys yn y porth.
- Y gallu i ddefnyddio system i ddefnyddwyr y mae eu mynediad i'r we y tu ôl i wal dân heb fod ganddynt lawer o reolaeth drosti (er enghraifft, rhai sy'n mynd at y wefan drwy systemau awdurdod lleol).

Meysydd i ymchwilio iddynt ymhellach

Roed rhai o'r pwyntiau trafod ehangach yn y gweithdy yn cynnwys:

- Yr her o sicrhau cywirdeb a hygrdedd y wybodaeth a gedwir.
- Rôl bosibl i weinyddwr i ymchwilio i'r wybodaeth a lanlwythwyd, neu ei haddasu, a phwy allai fod yn barod i ariannu hynny.
- Yr angen i sicrhau y câi gwybodaeth ei rhannu am brosiectau na lwyddodd i gyrraedd eu nodau yn ogystal â'r rhai a ystyrir yn llwyddiannus.

Arolwg y celfyddydau cymunedol

Pa agweddau sy'n bodoli yn sector y celfyddydau cymunedol tuag at rannu data ar effaith gymdeithasol, a dadansoddi data sefydliadau eraill?

Cynhaliom arolwg ar-lein o sefydliadau'r celfyddydau cymunedol i ddatblygu ein dealltwriaeth o ba ddata mae sefydliadau'r celfyddydau cymunedol yn ei gipio a'i gyhoeddi ar hyn o bryd, a'r agweddau a allai fod yn bodoli tuag at y syniad o borth effaith gymdeithasol i wneud i'r data fod ar gael yn ehangach. Nid oedd yr arolwg yn ddienw a gofynnwyd i'r ymatebwyr roi eu henw, teitl swydd ac enw'r sefydliad. Roedd hyn yn caniatáu inni fesur pa gyfran o sector y celfyddydau cymunedol fyddai'r arolwg yn ei chynnwys.

Derbyniom 26 o ymatebion unigryw, a gellir eu categoreiddio fel hyn:

- 16 o sefydliadau'r celfyddydau cymunedol.
- 2 swyddog celfyddydau awdurdodau lleol.
- 3 sefydliad rhwydwaith.
- 1 amgueddfa.
- 2 artist unigol.
- 1 ymgynghoriaeth gelfyddydol.

Derbyniwyd un ymateb anghyflawn gan ymatebydd dienw a holai a oedd yr arolwg ar gael yn y Gymraeg.

Er mai nifer fach a ymatebodd i'r arolwg, maent yn cwmpasu cryn gyfran o sector y celfyddydau cymunedol yng Nghymru. Maent yn cynnwys mwy na hanner y sefydliadau sy'n rhan o raglen ArtWorks Cymru, yn ogystal â sefydliadau'r celfyddydau cymunedol sydd y tu allan i'r fenter hon.

Cynrychiolai'r sefydliadau amrywiaeth eang o weithgarwch y celfyddydau cymunedol. Cawsom ymatebion gan:

- Sefydliadau sy'n gweithio ym mhob rhanbarth yng Nghymru, o grwpiau bach lleol i sefydliadau cenedlaethol.
- Sefydliadau sy'n gweithio mewn amrywiaeth eang o fathau o leoliadau, gan gynnwys canolfannau celfyddydol, ysgolion, lleoliadau gofal a busnesau.
- Sefydliadau a gyllidir mewn amrywiaeth o ffyrdd, o rai sy'n dibynnu'n bennaf ar gyllid Cyngor Celfyddydau Cymru neu awdurdod lleol i rai sy'n derbyn incwm drwy ymddiriedolaethau, dyngarwch, cyllido torfol a chronfeydd eraill y sector cyhoeddus, fel byrddau iechyd.

Beth mae sefydliadau'r celfyddydau cymunedol yn cyhoeddi ynglŷn â'u heffaith?

Edrychodd yr arolwg yn fanwl ar y gwahanol ganlyniadau yr oedd sefydliadau ac artistiaid yn disgwyl eu cyflawni gan y prosiectau a'r rhaglennu y maent yn eu rhedeg, a gofynnai ba ganlyniadau sy'n ddisgwyliedig, ac yn cael eu cofnodi, eu hadrodd i gyllidwyr, a'u cyhoeddi ar eu gwefannau.

Ar draws yr ymatebion i'r arolwg hwn, mae cydberthynas gref rhwng y canlyniadau a gofnodir a'r canlyniadau a adroddir i gyllidwyr. Credwn fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod yr angen i adrodd effaith gymdeithasol yn cael ei yrru gan ofynion cyllido.

Awgrymodd ymatebion yr arolwg fod sefydliadau'r celfyddydau cymunedol hefyd yn adrodd llawer mwy i gyllidwyr na'r hyn a gaiff ei wneud yn gyhoeddus. Er y gallai fod rhesymau da pam na chaiff y data hwn ei gyhoeddi, y mae'n dangos bod llawer iawn o ddata sy'n berthnasol i effaith gymdeithasol y celfyddydau cymunedol nad yw ar gael yn hawdd i'r cyhoedd.

Cyflwynom yr 11 o gategorïau o effaith gymdeithasol a luniwyd gennym ar sail gweithdy cychwynnol y prosiect, a gwahoddwyd yr ymatebwyr i nodi pa rai o'r rhain oedd yn berthnasol i'w gwaith. Roedd modd i'r rhan fwyaf o ymatebwyr categoreiddio'r rhan fwyaf o'u heffaith gymdeithasol i'n 11 o gategorïau. Ond gwahoddom yr ymatebwyr hefyd i nodi a oedd unrhyw effaith gymdeithasol a fesurir ganddynt nad ydynt yn teimlo ei bod yn cael ei chynnwys gan ein categorïau. Dyma eu hymatebion:

- Mesurau amrywiaeth.
- Cynhwysiant – mwy o gyfranogiad gan gyfranogwyr LGBT.
- Ffigurau ymgysylltiad digidol drwy'r cyfryngau, rhestr e-bostio a gwefannau.
- Lefelau mwynhad.
- Dilyniant – sut mae cyfranogwyr yn cysylltu â phrosiectau celfyddydol eraill.

Pa ddata sydd gan sefydliadau o fonitro a gwerthuso?

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ynglŷn â sut maent yn casglu eu data, ym mha fformatau mae'r data yn cael ei gadw a phwy oedd yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso eu prosiectau. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gasglu data, a'r dulliau mwyaf poblogaidd oedd fideo/ffotograffiaeth, ffurflenni wedi'u llenwi gan staff, cyfweiliadau ac arolygon. O ran fformatau cadw'r data, meddai'r ymatebwyr mai taenlenni Excel, dogfennau Word, ffotograffau a fideos oedd y dulliau mwyaf poblogaidd. Awgryma hyn y gallai'r sector cyfan fod yn dal symiau sylweddol o ddata am effaith y gwaith, er bod ansawdd y data a pha mor bosib yw ei gymharu yn debygol o fod yn amrywiol.

Wrth ystyried pwy oedd yn gyfrifol am fonitro a gwerthuso prosiectau a rhaglenni, meddai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr wrthym mai aelodau'r staff a arweinai'r prosiect oedd yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb hwn yn bennaf. Mae hyn yn ddo'i hun yn arwydd o'r capasiti cyfyngedig sydd ar gael i'w neilltuo i gasglu tystiolaeth gadarn o effaith.

Roedd hefyd disgwyl i'r artistiaid ymgymryd weithiau â gwaith monitro a gwerthuso, ac mewn rhai achosion defnyddiwyd gwerthusydd allanol. Gallai'r arfer o ddefnyddio gwerthuswyr allanol fod yn gyfle i wella ansawdd a chysondeb y data a gaiff ei gipio gan sefydliadau'r celfyddydau cymunedol, drwy gynorthwyo hyfforddiant a datblygiad proffesiynol, neu gynorthwyo gwerthuswyr allanol i gael eu cydgomisiynu i weithio ar draws amrywiaeth o ymyriadau tebyg yn y celfyddydau cymunedol.

Rhoddyd cyfle i'r ymatebwyr wneud sylwadau pellach am gipio data a derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- Defnyddir dulliau gwahanol ar gyfer prosiectau gwahanol.
- Mae angen ichi addasu'r dull i dargedu'r defnyddwyr / newid y broses i gyd-fynd â'r prosiect.
- Mae'r hyn a wneuch yn dibynnu ar ba mor ddwys a hir yw'r gwaith a wneir.
- Mae data meintiol yn anodd ei grynhoi a'i wahanu oddi wrth ddata ansoddol.
- Mae'n bwysig safoni a gwneud yr arfer o gipio data yn systematig er mwyn cymharu yn y tymor hir.

Agweddau tuag at y porth effeithiau

Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr a fyddent yn defnyddio'r porth i gael gafael ar wybodaeth am effeithiau cymdeithasol gwaith sefydliadau eraill, a ph'un a fyddent yn defnyddio'r porth i rannu gwybodaeth am effeithiau cymdeithasol eu gwaith hwy. Pwysig yw nodi nad oedd yr ymatebwyr, ar y cam hwn, wedi gweld na rhyngweithio ag unrhyw un o brototeipiau'r porth ac felly ateb yn ddamcaniaethol oeddynt. Gan fod y sampl yn fach, ni allwn gyffredinolol ar sail yr ymatebion i'r cwestiynau hyn - gallai staff oddi mewn i'r un sefydliad fod ag agweddau gwahanol, hyd yn oed - ond y maent yn cynrychioli amrywiaeth eang o safbwyntiau a all ein helpu i ystyried sut i wneud yn siŵr bod y porth yn addas i anghenion gwahanol sefydliadau yn sector y celfyddydau cymunedol.

Sylwadau cadarnhaol

Roedd llawer o sylwadau cadarnhaol yn canolbwyntio ar arferion gorau - awgryment ddiddordeb mewn dysgu am arferion gorau gan eraill, a rhannu eu harferion gorau eu hunain â'r sector yn ehangach. Roedd sylwadau hefyd gan ymatebwyr a ategai ein diddordeb pennaf ein hunain - sef casglu mwy o dystiolaeth gadarn o effaith gweithgarwch y celfyddydau cymunedol i wella mynediad at gyllid.

- Edrych ar feincnodi, arferion effeithiol a gorau a thystiolaeth.
- Byddai'n ddiddorol fel meincnod a chael syniadau am sut mae pobl eraill yn ei wneud.
- Mae llawer o artistiaid a gweithwyr creadigol yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac mae angen iddynt rannu arferion gorau a dysgu oddi wrth eraill.
- Cyfrannu at y sector drwy adeiladu sylfaen dystiolaeth gref yn gysylltiedig â chanlyniadau wedi'u cynllunio.
- Cymorth i asesu meincnodau ac arferion gorau i'w rhannu.
- Cynorthwyo fy ngwaith comisiynu (a sefydliadau eraill) fel offeryn i ddilysu/dysgu/gwella allbynnau, a nodi pa ymyriadau celfyddydol sydd orau i fynd i'r afael ag effaith ar draws matrices o bolisi cymdeithasol.
- Yr angen presennol am ganlyniadau a data mesuradwy er mwyn cael cyllid a gweld beth sy'n gweithio orau i gael y mesurau hynny.
- Argyhoeddi cyllidwyr y tu allan i'r celfyddydau o werth ein gwaith.
- Mae angen inni oll ganfod cymaint o lwybrau posib i rannu ein canfyddiadau ac adrodd ein storïau.

Sylwadau gochelgar

Roedd rhai ymatebwyr yn fwy gochelgar ynglŷn â'r syniad o borth, gan gynnwys rhai ymatebwyr a oedd yn dal i ddweud 'ie' pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn defnyddio'r porth i gael mynediad at ddata neu rannu data. Meddai rhai na fyddent yn dod i gasgliadau pendant ar sail tystiolaeth a oedd heb ei dilysu'n allanol. Yn hytrach, awgryment y byddent yn fwy tebygol o ddibynnu ar ymchwil academiaidd, neu mewn rhai achosion, eu prosesau monitro a gwerthuso mewnol eu hunain.

- Yn fwyaf tebygol o edrych ar waith ymchwil academiaidd wedi'i ddilysu... Ni fyddem yn cyhoeddi effaith ein gwaith yn gyhoeddus heb ei ddilysu'n allanol a heb fod y gwaith ymchwil wedi'i gynnal dros gyfnod hir.
- Nid wyf yn siŵr a fyddai effaith gymdeithasol prosiectau eraill yn cyfarwyddo sut y gwnawn bethau.
- Ansicr ynglŷn â manteision y porth.
- Gallai fod yn ddefnyddiol, ond mae gennym gryn arbenigedd yn y maes hwn.
- Nid wyf yn siŵr a fyddai effaith gymdeithasol prosiectau eraill yn cyfarwyddo sut y gwnawn bethau... Ethos ein sefydliad yw bod yn dryloyw gyda'n data. Efallai na fyddai ein cyllidwyr yn caniatáu inni gyhoeddi rhai elfennau o ddata.
- Dibynnu ar y gost. Os yw'n wasanaeth am ddim, byddem.
- A fyddem yn hapus i rannu – yn dibynnu ar amser ac adnoddau.
- Ni fyddem yn rhannu gwybodaeth sydd yn bersonol neu a allai achosi trallod i gyfranogwyr.

Yn yr ymatebion cadarnhaol a'r rhai mwy gochelgar, y mae'n bosibl nodi dau angen mewn perthynas â mesur effaith gymdeithasol.

Ar y naill law, yr angen i addasu'n barhaus i'r hyn sy'n cael ei fesur a sut - yn unol â ffocws penodol pob menter neu flaenoriaeth strategol newydd, a blaenoriaethau newidiol gwahanol gyllidwyr.

“Rydym newydd fod yn llwyddiannus i gael cyllid am 3 blynedd gan [Fwrdd Lechyd], mewn partneriaeth â nifer o Elusennau Lechyd Meddwl. Dechreuodd y contract newydd hwn ar 1af Rhagfyr ac mae'n rhaid inni ailstrwythuro ein dulliau Monitro a Gwerthuso i gyd-fynd â'u mecanwaith Lechyd Meddwl cydnabyddedig. Roedd ein systemau blaenorol wedi'u llunio ar sail Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau, a oedd hefyd yn cael eu cydnabod gan y Bwrdd Lechyd. Pa bynnag ddulliau a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth, mae'n rhaid i'r ffordd yr ydym yn ei chasglu gyd-fynd â'r sectorau'r ydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw, e.e. yn ein hachos ni, Lechyd.”

Ar y llaw arall, mae awydd i sicrhau dull mwy cyson a hirdymor o fesur effaith, er mwyn dangos gwerth yn fwy clir yn y tymor hir. Gall meddu ar ddulliau sydd â gwell tystiolaeth, ac offer wedi'u dilysu, helpu sefydliad i ystyried pa weithgareddau allai sicrhau effaith yn fwyaf effeithiol yn eu hamgylchiadau penodol.

“Pwysig yw safoni [adrodd] a'i wneud yn systematig er mwyn cymharu yn y tymor hwy. Gwnaethon lawer o waith ar ddata amrywiaeth yn ymwneud yn benodol ar draws ein gwaith, ond hefyd addasu'r dull i dargedu defnyddwyr, e.e., mae cyfranogwyr ifanc yn ymateb i ddull mwy chwareus.”

Hoffem fod modd i'r porth effeithiau cymdeithasol a rannwn fynd i'r afael â'r ddau angen yma er mwyn bod mor ddefnyddiol â phosib i'r sector. I sicrhau'r gefnogaeth gryfaf bosib gan gyllidwyr a rhanddeiliaid eraill, bydd angen inni ddangos sut y byddwn yn mynd i'r afael a'u hanghenion yn y ddau fater hyn.

Yr hyn a ddysgom

Adeg cynnal yr arolwg hwn, cynnig damcaniaethol yn unig oedd porth Effaith Celfyddydau Cymru, a dyluniwyd yr arolwg hwn i archwilio'r arferion a'r agweddau ymysg sector y celfyddydau cymunedol.

Roedd yr adborth a gawsom yn awgrymu bod yr arfer o gipio data yn aml yn cael ei yrru gan y gofynion adrodd a gaiff eu gosod drwy gytundebau cyllido. Er y caiff y data a gesglir ei adrodd i gyllidwyr, y mae'n ymddangos inni bod llawer o'r data hwn heb gael ei rannu'n gyhoeddus. Yng ngeiriau un ymatebydd "y cydbwysedd cymhleth rhwng cynnal ymgysylltiad cymunedol cyson a dilyn blaenoriaethau newidiol cyrff cyllido a chyfarwyddebau cymdeithasol."

Mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod sector y celfyddydau cymunedol eisoes yn cipio amrywiaeth eang o ddata ar effaith gymdeithasol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn gadarnhaol ynglŷn â chysyniad y porth, er bod rhai yn fwy gochelgar ac yn codi pryderon dilys – ynglŷn â gofynion o ran adnodau ac ansawdd y data, er enghraifft – sy'n haeddu ystyriaeth bellach gennym.

Camau nesaf

A all porth ar-lein i rannu data ar effaith gymdeithasol helpu sefydliadau'r celfyddydau cymunedol i fod yn fwy effeithiol a mwy cyllidadwy?

Credwn fod yr adborth a gasglom yn dangos yr angen am borth rhannu data ar weithgarwch y celfyddydau cymunedol yng Nghymru, a'r potensial am borth o'r fath. Rydym yn benderfynol o geisio cyllid pellach i barhau i'w weithredu, a dyfnhau ein dealltwriaeth o sut y gall y porth fod yn hygyrch a defnyddiol.

Ein blaenoriaeth gyntaf yw ymgysylltu â rhagor o randdeiliaid, yn arbennig o'r sector cyhoeddus. Er mwyn cynyddu ymgysylltiad, credwn y bydd angen inni gael mäs critigol o ddata, a sicrhau ei ansawdd. Mae angen sicrhau eglurder a thryloywder ynglŷn â pham y caiff y data ei gasglu, ei rannu a'i gyflwyno.

Mae angen inni ddatblygu ein dealltwriaeth o anghenion holl grwpiau defnyddwyr arfaethedig y porth, yn sector y celfyddydau cymunedol, yn y llywodraeth, mewn cymunedau ymchwil a'r gymdeithas sifil. Rydym eisiau ymgysylltu ag amrywiaeth mor eang â phosib o randdeiliaid yn uniongyrchol yn y broses ddatblygu.

Buom yn cydweithio â'n bwrdd ac â chwmni ymgynghori i amlinellu ein camau nesaf. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Pennu costau datblygu prototeip pellach ac ymgynghori'n ehangach â sector y celfyddydau cymunedol.
- Gosod disgwyliadau clir o'r hyn y gall ac y dylai'r porth ei gyflawni.
- Datblygu'r fframwaith ymhellach o amgylch y model data i sicrhau hyblygrwydd a chysondeb.
- Datblygu model o'r porth sy'n gweithio'n llawn.
- Cynnwys amrywiaeth ehangach o gyrff y sector cyhoeddus yn y broses o ddatblygu'r porth.
- Ystyried sut gall y porth gael ei wneud yn gynaliadwy, er enghraifft drwy hysbysebu, nawdd, neu ffi aelodaeth.

Yn fwy na datblygu'r porth hwn yn unig, mae angen gwella ansawdd yr arfer o gipio data ynghylch effaith gweithgarwch y celfyddydau cymunedol yng Nghymru. Drwy alluogi i rannu data sy'n bodoli eisoes, credwn y gall y porth hwn gyfrannu'n sylweddol at y gwelliannau hynny. Gall gynyddu dealltwriaeth o waith y sector, a helpu i ddarparu sylfaen i safonau uwch o dystiolaeth.

Tîm y prosiect

Richie Turner, Cymuned Artis

Rheolwr Prosiect

Profiadol iawn mewn datblygu partneriaethau newydd; cyflawni mentrau newydd; creu twf busnes a modelau busnes newydd; a chyflwyno'r syniadau diweddaraf o faes arloesi ac entrepreneuriaeth i fusnesau newydd a phresennol a sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Kate Broadhurst, Cymuned Artis

Gweithdai Profion y Defnyddwyr

Mae gan Kate 5 mlynedd o brofiad o weithio ym maes cyfathrebu digidol, yn gyntaf fel Rheolwr Prosiect ac wedyn fel Ymgynghorydd. Bu'n gweithio ar draws maes marchnata'r cyfryngau cymdeithasol, dylunio rhyngweithiadau, profiad defnyddwyr a strategaeth ddigidol. Mae ei chleientiaid yn cwmpasu nifer o sectorau, gan gynnwys nid er elw, gofal iechyd, cyllid ac addysg uwch.

Rhian Hutchings, ArtWorks Cymru

Rheolwr Partneriaeth

Bu Rhian yn ymwneud ag ArtWorks Cymru ers 2011, pan oedd yn Gyfarwyddwr Ieuencid a'r Gymuned yn Opera Cenedlaethol Cymru. Yn 2014, symudodd i fod yn Rheolwr Partneriaeth ArtWorks Cymru ar gyfer rhaglen 2015 - 2017. Rhian hefyd yw Cyfarwyddwr Creadigol Operasonic - cwmni newydd sy'n creu opera cyfranogol gyda phobl ifanc, ac mae'n Asiant Creadigol i Gynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Marc Heatley, Proper Design

Dylunydd

Gyda chefnidir yn y celfyddydau perfformio, yn ymddangos ar lwyfannau ac yn eu hadeiladu, Marc yw'r dylunydd mwyaf profiadol ar dîm Proper, a bu'n gweithio mewn print, graffeg symud a'r we ers troad y ganrif.

Ben Jones, Proper Design

Datblygwr

Ar ôl datblygu gyrfa yn y diwydiant awyr agored yn adeiladu ac wedyn rheoli gwefan e-fasnach boblogaidd, symudodd Ben ymlaen i sefydlu Proper Design gyda Marc ac Andrew yn 2014. Mae Ben bellach wrth ei fodd â chymwysiadau rhyngweithiol ar y we.

Andrew Shankie, Proper Design

Datblygwr

Bu Andrew yn gweithio fel ymgynghorydd yn y Ddinas, yn arbenigo mewn atebion TG cyn symud i Gaerdydd a sefydlu'i hun yn ddatblygwr y we yn 2012. Mae Andrew yn hoff o JavaScript (ar weinydd ac mewn porwyr), APIs i'r we a gwella offer datblygu.

Lorna Scurlock, Proper Design

Rheolwr Busnes

Lorna yw'r diweddaraf i ymuno â thîm Proper. Bu'n gweithio ym maes datblygu polisi amgylcheddol yn y sector cyhoeddus a'r sector elusennol. Gyda phrofiad mewn cynllunio strategol a lobio dros newidiadau polisi a deddfwriaethol, her newydd Lorna yw trosi'r hyn a ddwedir yn y swyddfa i fod yn rhywbeth y bydd bodau dynol yn ei ddeall.

Amserlen a chyllideb

Dyddiad	Disgrifiad / Canlyniad	Pwy	Gwariant
Gorff-Med 2016	Cyfnod 1 - Datblygu		
	Datblygu prototeip Airtable	Proper Design	£3,840
	Gweithdy cychwynnol y prosiect, ymgysylltu â rhanddeiliaid, rheoli prosiect	Artworks / Rheolwr Prosiect	£3,200
Med-Tach 2016	Cyfnod 2 - Datblygu		
	Datblygu model data	Proper Design	£9,600
	Gweithdai Profion y Defnyddwyr	Proper Design	£600
	Ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoli prosiect	Artworks / Rheolwr Prosiect	£1,536
Tach-Ion 2017	Cyfnod 3 - Datblygu		
	Adeiladu model data	Proper Design	£13,920
	Gweithdai Profion y Defnyddwyr	Proper Design	£913
	Ymgysylltu â rhanddeiliaid a rheoli prosiect	Rheolwr Prosiect	£5,880
Ion-Maw 2017	Cyfnod 4 - Gwerthuso		
	Datblygu prototeip pellach a phroffion rhyngwyneb defnyddiwr: sector cyhoeddus	Proper Design	£7,320
	Ysgrifennu, gwerthuso, ysgrifennu cynnig i ddenu cyllid pellach	Rheolwr Prosiect	£7,536
	Cyfanswm y Gyllideb		£54,345

Categoriâu effaith gymdeithasol

FAt ddiben y prosiect hwn, creom gyfres o gategoriâu o effaith gymdeithasol yn sail i'n model data.

1. Canlyniadau Celfyddydol (sgiliau celfyddydol, creadigrwydd, adloniant, hunanfyneiant)
2. Canlyniadau Datblygu Personol (hyder, cyfathrebu, gwaith tîm, synnwyr o gyflawniad)
3. Canlyniadau Iechyd Meddwl (mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol, iselder, dementia, clefyd Parkinson, ac ati)
4. Canlyniadau Iechyd Corfforol (gwella ffitrwydd, symudedd, colli pwysau ac ati)
5. Canlyniadau Amgylcheddol (gwella manau gwyrdd, llai o ollwng sbwriel neu fandaliaeth, ac ati)
6. Canlyniadau Sgiliau, Cyfogaeth a Menter (llwybrau tuag at waith, addysg bellach neu hyfforddiant)
7. Canlyniadau Cymunedol (cydlyniant cymunedol, hunaniaeth gymunedol, integreiddio cymdeithasol ac ati)
8. Canlyniadau Addysgol (gwella presenoldeb, llythrennedd a rhifedd, cysylltiadau â'r cwricwlwm)
9. Canlyniadau Gwleidyddol (newid polisi, ar sail materion)
10. Canlyniadau Iaith (y Gymraeg)
11. Canlyniadau Digidol (sgiliau a chynhwysiant digidol)

Mae'r rhestr fer hon yn seiliedig ar y rhestr hir a luniwyd gennym yng ngweithdy cychwynnol y prosiect ym mis Medi

- Mwy o gyfranogiad yn y celfyddydau
- Mwy o hyder
- Gwell iechyd meddwl
- Effaith amgylcheddol
- Llai o arwahanrwydd
- Rhannu gwybodaeth
- Gwell ffitrwydd
- Lleihau lefelau NEET
- Gwell arferion rheoli arian
- Mwy o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol
- Gwell setiau sgiliau
- Gwell cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion
- Llwybrau tuag at gyfogaeth
- Gwella sgiliau cyfathrebu
- Cydlyniant cymdeithasol
- Llwybrau tuag at hyfforddiant
- Gwell llythrennedd
- Gwell rhifedd
- Cydlyniant teuluol
- Mwy o bartneriaethau
- Hyfforddiant pellach a chymwysterau
- Gostyngiad mewn beichiogrwydd yn yr ardegau
- Ymwybyddiaeth o gyffuriau, ysmegu ac alcohol
- Gwell iechyd
- Gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Helpu rhai sy'n dioddef o ddementia neu glefyd Parkinson
- Mwy o wirfoddoli
- Rhwydwaith cymdeithasol ehangach
- Synnwyr o ddiogelwch
- Cyflwyniad i waith
- Gwell ansawdd bywyd
- Gwell symudedd
- Colli pwysau
- Gwell gweithgarwch sifil
- Dealltwriaeth gyffredin ar draws y gymuned
- Dysgu am y celfyddydau
- Lles meddyliol
- Mwy o chwarae
- Ysgogiad

- Synnwyr o gyflawniad
- Arweinyddiaeth
- Ymgysylltu
- Adeiladu dyheadau
- Datblygu'r Gymraeg
- Hunan-werth
- Hyder i wneud gwahaniaeth
- Dylanwadu ar bolisi
- Gwella hunaniaeth gymunedol
- Cynyddu cyfleoedd
- Creadigrwydd
- Dysgu sgiliau technegol
- Gwaith tîm
- Agor drysau i brofiadau newydd
- Ehangu gorwelion
- Cynyddu gweithgarwch economaidd
- Galluogi hunanfyneigiant
- Cynyddu'r galw am gyfleusterau a gwasanaethau lleol [i gael eu gwella] e.e. oriau agor hwy
- Integreiddio cymdeithasol
- Mwy o fanteisio ar gyfleoedd addysg lleol
- Mwy o ddefnydd o fannau cyhoeddus/gwyrdd
- Cwrdd â busnesau lleol
- Lleihau derbyniadau i'r ysbyty
- Lleihau fandaliaeth a gollwng sbwriel
- Gwneud mannau yn ddiogel
- Cynhwysiant digidol
- Gwell ymreolaeth
- Cryfhau cyflawniadau
- Swyddi
- Mynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol
- Rhoi llais i bobl
- Rhwydweithio unigol
- Dathlu amrywiaeth
- Rhoi hunaniaeth i bobl
- Adloniant
- Ailgydio mewn addysg
- Newid ymddygiad
- Gwell diet
- Pleser
- Mwy o reolaeth
- Gwell cynllunio
- Cymunedau newydd yn siarad gyda hen gymunedau
- Ymgysylltu digidol
- Hunangynhafiaeth e.e. rhandiroedd symudol
- Sgiliau trosglwyddadwy
- Gwella perthnasoedd
- Ffitrwydd
- Gwella'n gynt o salwch
- Pellter a deithiwyd
- Symud ymlaen i hyfforddiant/gyrfa broffesiynol yn y celfyddydau
- Synnwyr o berthyn
- Gwell symudedd corfforol
- Gwell capasiti yng ngweithlu'r sector
- Cyflogaeth
- Cynnydd yn yr hyn a gyflawnir yn y Gymraeg

Effaith Celfyddydau Cymru

Grŵp Profion Defnyddwyr – Gweithdy 1

Adroddiad gan Kate Broadhurst, Ymgynghorydd

15fed Rhagfyr 2016

10am - 2.30pm

IndyCube Casnewydd, The Loft, Stryd Fawr, Casnewydd NP20 5DD

Dan arweiniad: Kate Broadhurst, Andrew Shankie, Richie Turner, Lorna Scurlock

Cyfranogwyr:

- Sarah Goodey, Celfyddydau mewn Iechyd Gwent
- Richie Turner, Cymuned Artis
- Rhian Hutchings, Operasonic
- Christian Hoad, Head4Arts

Nodau'r gweithdy:

- Profi a thrafod p'un a oes modd i sefydliadau celfyddydol fewnbynnu canlyniadau eu prosiect i feysydd diffiniedig ym mhrototeip y porth.
- Trafod sut gallai sefydliadau ddefnyddio ac ymchwilio i ddata drwy'r porth.
- Nodi cyfres o feysydd mewnbynnu sydd yn ddigon hyblyg i ymdopi ag anghenion sefydliadau celfyddydol.

Cwestiynau ymchwil:

- Sut mae ein porth effeithiau cymdeithasol yn diwallu anghenion sector y celfyddydau cymunedol?
- Pa nodweddion sydd ei angen arno i wneud hyn yn effeithiol?

Proses:

- Cyflwynodd Proper Design brototeip y porth mewn camau. Ar bob cam, byddai'r cyfranogwyr yn trafod y meysydd mewnbynnu ac yn ymchwilio iddynt.
- Bu'r cyfranogwyr yn profi'r porth gan ddefnyddio data canlyniadau go iawn o'u prosiectau i asesu p'un a oedd y meysydd a ddarparwyd yn ddigon defnyddiol a hyblyg i ddiwallu eu hanghenion.

Canlyniadau:

- Roedd modd i'r sefydliadau celfyddydol a ddaeth i'r gweithdy fewnbynnu canlyniadau eu prosiect i mewn i'r meysydd a oedd wedi'u diffinio yn y prototeip, ac roeddynt yn cytuno bod y meysydd yn ddigon hyblyg i ymdopi â'u hanghenion.
- Trafodwyd y ffordd y gallai'r sefydliadau fod yn ymchwilio i'r data drwy'r porth, ond bydd angen archwilio hyn ymhellach yng ngweithdai'r dyfodol.
- Arweiniodd yr adborth at wneud cyfres o iteriadau bach yn ystod y gweithdy. Cofnodwyd y rhain yn y nodiadau llawn.
- Caiff rhai newidiadau mwy, fel ychwanegu categorïau a ddiffiniwyd yn y gweithdy, eu gwneud yn ystod y cyfnod datblygu nesaf a'u profi mewn sesiynau yn y dyfodol.

Nodiadau llawn y sesiwn

Gwybodaeth am y sefydliad

Gofynnodd y cyfranogwyr am esboniad o sut byddai data sefydliadau yn cael ei ddefnyddio. Cytunwyd bod yn rhaid cael eglurder ar hyn, a chaiff nodyn esboniadol ei ychwanegu i'r adran hon. Gofynnodd y cyfranogwr am faes cod post dewisol i gael ei ychwanegu i'r adran hon fel bod modd dod o hyd i sefydliadau yn ôl lleoliad. Gwnaed hyn yn ystod y sesiwn.

A screenshot of a web form with several input fields. The fields are labeled: 'Name', 'Email', 'Organisation Name', 'Phone', and 'Organisation Type'. Each field has a small asterisk indicating it is required. The form is set against a light blue background.

Disgrifiad o'r prosiect

Roedd rhywfaint o anhawster wrth ddeall yr hyn oedd ei angen ym maes Disgrifiad o'r Prosiect. Angen nodyn esboniadol, neu enghraifft.

Categoriâu effaith gymdeithasol

Cyflwynodd Richie Turner y gyfres arfaethedig o Gategoriâu Effaith Gymdeithasol, a luniwyd yn sgil gweithdai blaenorol:

- Digidol
- Iaith
- Gwleidyddol
- Addysgol
- Cymunedol
- Sgiliau, cyflogaeth a menter
- Amgylcheddol
- Iechyd corfforol
- Iechyd meddwl
- Datblygiad personol
- Y celfyddydau

Bu'r cyfranogwyr yn profi p'un a allent osod eu prosiectau yn y categorïau llinell uchaf hyn.

Roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn ag a fyddai'n bosib gwahaniaethu rhwng canlyniadau caled a meddal. Trafodwyd hyn, ond cytunwyd peidio â'u rhannu am mai diben y categorïedd hyn yw galluogi i wybod mwy am brosiectau ar lefel syml.

Awgrymodd SG y gallai canlyniadau Cyfiawnder Troseddol fod yn gategori llinell uchaf. Rhoddir mwy o ystyriaeth i hyn.

Holodd SG am ganlyniadau artistiaid gan y bydd yn debygol y bydd rhagor o brosiectau yn cynnwys yr effaith ar y cyfranogwr fel amcan. Trafodwyd hyn eto yn nes ymlaen yn y gweithdy, a chytunwyd na fyddai canlyniadau cyfranogwyr yn cyd-fynd â ffocws y porth ar 'effaith gymdeithasol' ac felly ni fyddai wedi'i gynnwys ar y cam hwn.

Presenoldeb yn erbyn Mynychu

Codwyd y gwahaniaeth rhwng Presenoldeb a Mynychu. Teimlwyd bod y gwahaniaeth yn bwysig iawn. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfranogwr prosiect yn mynychu'n wythnosol a chyfranogwr sy'n bresennol unwaith yn unig yn sylweddol wrth werthuso effaith a'r llwybr teithio i'r cyfranogwyr. Teimlwyd nad oedd llawer o ystyr i bresenoldeb cyffredinol oni bai y câi ei werthuso'n fanylach.

Bydd sefydliadau celfyddydol wedi arfer â rhoi cyfanswm cronus niferoedd y cyfranogwyr mewn adroddiadau cyllido, felly mae angen gwneud yn glir ein bod yn gofyn iddynt adrodd nifer yr unigolion sy'n cymryd rhan yn y prosiect.

Cytunwyd bod hyn yn adborth pwysig a bod angen meddwl mwy amdano.

Categoriâu ffurfiau celf

Cyflwynodd Proper Design nifer o opsiynau ar gyfer categoreiddio ffurfiau celf:

- Rhestr rydd lle gall y defnyddwyr ychwanegu beth bynnag a ddymument
- Gosod categorïau lefel uchaf gydag opsiwn testun rhydd ar gyfer is-gategoriâu
- Lefelau categorïau hierarchaidd
- Yr opsiwn i gyflwyno cais am gategori newydd

Cytunwyd mai'r ateb gorau fyddai cyfuniad o'r opsiynau hyn. Gosod categorïau hierarchaidd ond â'r gallu i wneud cais am gategori ail lefel newydd a disgrifiad testun rhydd i ychwanegu rhagor o fanylion.

Hanfodol fyddai'r gallu i ddewis rhagor nag un ffruf gelf. Yr opsiwn i ychwanegu ffurfiau celf cynradd, eilaidd a thrydyddol - ond rhaid bod yn glir nad oes yn rhaid i'r defnyddwyr ddewis pob un o'r tri os nad yw hyn yn berthnasol. Bydd gofyn i'r defnyddwyr ddewis o leiaf un categori.

Awgrymwyd y byddai awgrymiadau clyfar neu gwmwl tagiau yn gwneud y categoreiddio hyn yn haws i'r defnyddwyr. Cynhaliodd grŵp y gweithdy ymarferiad categoreiddio i bennu categorïau ffurfiau celf lefel uchaf ac is-lefel:

1. Dylunio
2. Pensaerniaeth
3. Y celfyddydau cymhwysol
 - a. Garddwriaeth
 - b. Gwneud gemwaith
 - c. Crefftau
 - d. Tecstilau
 - e. Cerameg
 - f. Cerflunio

- g. Celf ecolegol
- h. Celf tir
- i. Gwneud gwisgoedd
- j. Amgylcheddol
4. Y celfyddydau gweledol
 - a. Cymysg / trawsgyfyngol
 - b. Ffotograffiaeth
 - c. Murlun
 - d. Ffilm
 - e. Celfyddydau lens
 - f. Murluniau
 - g. Graffeg
 - h. Animeiddio
 - i. Curadurol
 - j. Paentio
5. Y celfyddydau perfformio
 - a. Dawns
 - b. Cerddoriaeth
 - c. Cloccio
 - d. Bale
 - e. Dawnsio stryd
 - f. Canu
 - g. Rap/hip-hop
 - h. Cerddorfaol
 - i. Drama
 - j. Pypedwaith
 - k. Dylunio theatr
 - l. Dawns gymunedol
 - m. Theatr gorfforol
 - n. Syrcas
 - o. Opera
6. Llenyddiaeth
 - a. Barddoniaeth
 - b. Ysgrifennu
 - c. Nofelau graffig
 - d. Blogio
 - e. Ysgrifennu dramâu

Categoriâu trawsffurf

- Celfyddydau digidol
- Celfyddydau cyhoeddus
- Ymarfer cymdeithasol-ymatebol
- Celfyddydau awyr agored

Caiff y categorïau hyn eu hychwanegu i'r prototeip a'u profi mewn sesiynau i'r dyfodol.



Rhaglenni tymor hwy

Gofynnwyd cwestiwn ynglŷn â rhaglenni tymor hwy. Cytunwyd y dylai prosiectau oddi mewn i raglenni tymor hwy gael eu hychwanegu fel prosiectau ar wahân. Byddai angen i hyn gael ei wneud yn glir ar y dechrau i atal sefydliadau rhag cyflwyno blwyddyn gyfan o ddata o dan un prosiect. Pwysleisiai'r drafodaeth hon unwaith eto fod angen adran ganllaw.

Atodiadau

Cytunwyd bod y maes hwn yn bwysig a defnyddiol i ganiatáu i sefydliadau lanlwytho mwy o ddata ategol ansoddol. Cytunwyd i wneud maes gorfodol fel bod yn rhaid i sefydliadau ddarparu rhywfaint o dystiolaeth a phrawf ategol o ganlyniadau eu prosiect.

Cytunwyd i ychwanegu'r opsiwn i ddarparu dolen fan hyn hefyd wedi'i lanlwytho fel bod modd i sefydliadau roi dolen i wefannau neu fideos fel tystiolaeth ategol. Caiff hyn ei wneud yn ystod y cyfnod datblygu nesaf.

Trafodwyd pwysigrwydd rhoi cyfyngiad ar faint ffeil a'r angen i feddwl am ben blaen yr adran hon er mwyn cael y canlyniadau gorau.


Cost y prosiect a hyd y prosiect

Awgrymodd SG y byddai'n well cael bandiau ar gyfer maes cost gan y byddai'n haws cyfrifo, a byddai'r sefydliadau yn teimlo'n fwy cyfforddus.

Trafododd y grŵp amwysedd y ffrydiau cyllido a sut i roi ystyriaeth i gostau staff, mewn nwyddau, cyfraniadau partneriaeth ac ati. Cytunwyd bod angen i'r maes hwn gipio cyfanswm cost y prosiect yn cynnwys yr agweddau hyn, nid faint o gyllid a roddwyd yn unig. Awgrymwyd creu offeryn a fyddai'n helpu i gyfrifo'r gost hon ond byddai hyn ar gam datblygu diweddarach. Ar gyfer y prototeip, byddai canllawiau yn cael eu creu.

Cytunwyd i ddefnyddio bandiau ar gyfer hyd y prosiect.

Gwnaed y newidiadau hyn yn ystod y sesiwn a chânt eu profi eto.



Lleoliad y prosiect

Gofynnodd CH am y gallu i ychwanegu nifer o godau post os yw sefydliad yn cyflawni prosiect mewn gwahanol ardaloedd. Gwnaed y newid hwn yn ystod y sesiwn.

Cytunwyd bod y maes hwn yn hanfodol er mwyn rhoi cyd-destun i'r data a chreu cyfleoedd yn y dyfodol i gysylltu â setiau data allanol.

Roedd angen i leoliad rhai prosiectau fod yn gyfrinachol (e.e. Unedau Cyfeirio Disgyblion). Cytunwyd i ychwanegu blwch ticio i ddewis peidio â darparu cod post a byddai hynny'n agor dewiswr lleoliad ehangach yn yr achosion hyn. Gwaed hyn yn ystod y sesiwn.

A screenshot of a web form. It has a light yellow background. The form is divided into sections: 'Primary' with a text input field, 'Secondary postcodes' with a text input field, 'Location is private - opt out of postcode' with a checkbox, and 'Tertiary postcodes' with a text input field.

Awgrymwyd lleoliadau Cynradd, Eilaidd a Thrydyddol. Gofynnodd SG beth fyddai'n digwydd os ydych yn adrodd yn erbyn gwahanol leoliadau. A fyddai modd creu is-brosiectau ar wahân? Cyfeiriodd RH at sefyllfa lle byddai cwmni cenedlaethol yn mynd â phrosiect ar daith o amgylch gwahanol ysgolion – Ni fyddai cynradd, eilaidd a thrydyddol yn gweithio yn y sefyllfa hon. Meddai'r grŵp y byddai adrodd ar gyfranogiad mewn gwahanol leoliadau yn bwysig i gymharu tebyg at debyg mewn gwahanol ardaloedd. Cytunwyd y byddai hyn yn faes posib i'w ehangu yn y dyfodol.

Partneriaid

Gofynnodd SG a oedd yn bosibl cipio partneriaid ar brosiectau megis Byrddau Iechyd. Cytunwyd i ychwanegu maes dewis partner. Gwnaed hyn yn ystod y sesiwn.

Data unigolion a charfannau

Cafwyd adborth gan y cyfranogwyr y byddai angen testun esboniadol ar hyn.

Teimlai'r grŵp fod y gwahaniaeth rhwng meysydd ar gyfer data unigolion a data carfannau yn gweithio'n dda.

Roedd rhywfaint o ddryswch ynglŷn â'r system sgorio a gwahanol ddehongliadau. Byddai angen esbonio hyn fel bod pob sefydliad yn deall y raddfa yn yr un ffordd.

Trafodwyd categorïau'r carfannau, p'un a fyddai'n ddefnyddiol ychwanegu mwy nag ystod oedran yn unig, megis anabledd. Yn gyffredinol, cytunai'r grŵp, po fwyaf o wybodaeth y gofynnir amdani, y lleiaf y bydd pobl eisiau ei llenwi, a gwell fyddai cadw hyn yn syml er mwyn sicrhau y caiff y nifer mwyaf posib o brosiectau eu hadrodd.

Roedd y grŵp o'r farn mai defnyddiol oedd yr amcanion hunan-ddiffiniedig i sgorio yn eu herbyn.

Nid oedd gan RT fynediad at faint yn union o bobl oedd wedi cyfranogi, ond yr oedd ganddo'r adroddiad ansoddol gan yr artist. Cytunodd y grŵp mai'r peth gorau yn yr achosion hyn fyddai gwneud dyfaliadau gwybodus yn hytrach na bod prosiectau yn cael eu heithrio, ac y dylid nodi hyn yn y nodiadau esboniadol.

Cytunodd CH fod y meysydd a ddarparwyd yn hawdd eu defnyddio ac yn ddigon hyblyg.

Ansawdd y data

Codwyd rhai pwyntiau trafod diddorol wrth brofi'r data. Nid oedd RH yn dilyn trywydd unigolion ar brosiectau oherwydd yr amser y cymerai hyn. Ond roedd mewnbynny'r data i brototeip y porth yn gwneud iddi gwestiynu'r hyn y gellid gwneud yn well i ddarparu data mwy defnyddiol. Yn sgil y profion, gwelwyd bod angen gwella ansawdd y data a gaiff ei gipio gan y sefydliadau. Byddai arferion gorau, offer a thempledi i helpu gyda hyn yn ddefnyddiol iawn ac yn gwella cysondeb arferion casglu data ar draws sefydliadau. Gallai hyn fod yn sail i gais am gyllid yn y dyfodol.

Ymchwilio i'r data

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr ym mha ffordd y gallent fod yn ymchwilio i'r data fel sefydliadau celfyddydol – p'un ai ar sail prosiect unigol neu ffigurau prosiectau gyda'i gilydd. Cytunent mai'r gallu i gymharu prosiectau unigol fyddai'n fwyaf defnyddiol, gyda'r gallu i hidlo i lawr i'r rhai mwyaf perthnasol. Mae dulliau ymchwilio i'r data yn rhywbeth i'w hystyried ymhellach yn yr arolwg ac mewn gweithdai sydd i ddod.

Effaith Celfyddydau Cymru

Grŵp Profion Defnyddwyr – Gweithdy 2

Adroddiad gan Lorna Scurlock, Proper Design

27ain Ionawr 2017

12am - 4.30pm

Canolfan Celfyddydau Chapter, 40 Heol y Farchnad, Caerdydd, CF5 1QE

Dan arweiniad: Marc Heatley, Andrew Shankie, Lorna Scurlock

Cyfranogwyr:

- Richie Turner, Cymuned Artis
- Sarah Goodey, Celfyddydau mewn Iechyd Gwent
- Kathryn Williams, Dawns Rubicon
- Adam, Dawns Rubicon
- Christian Hoad, Head4Arts
- Rhian Hutchings, Operasonic

Trosolwg

Nodau'r gweithdy:

- Profi a thrafod p'un a oes modd i sefydliadau celfyddydol fewnbynnu canlyniadau eu prosiect i feysydd diffiniedig ym mhrototeip y porth.
- Trafod sut gallai sefydliadau ddefnyddio ac ymchwilio i ddata drwy'r porth.
- Profi p'un a yw'r porth yn diwallu anghenion sector y celfyddydau cymunedol yn effeithiol.

Cyfranogwyr:

- Cynrychiolwyr o sector y celfyddydau cymunedol.

Proses:

Gofynnir i'r cyfranogwyr fewnbynnu eu data i'r porth gan ddefnyddio'r meysydd mewnbynnu diffiniedig drwy gyfres o dasgau. Proper Design i asesu pa mor reddfodol yw'r porth i'r cyfranogwyr a chasglu adborth ar ba mor ymarferol ac effeithiol yw'r porth.

Canlyniadau:

- Roedd modd i'r cyfranogwyr fewnbynnu gwybodaeth am eu sefydliad a'u prosiect yn y porth.
- Sylwyd ar nifer o fân wallau a thynnwyd sylw at newidiadau sydd eu hangen.
- Rhoddwyd adborth helaeth ac mae hyn wedi'i fanylu yn nodiadau llawn y sesiwn isod.
- Caiff newidiadau o ganlyniad i'r adborth eu gwneud yn ystod y cyfnod datblygu nesaf a'u profi mewn sesiynau profi pellach.

Nodiadau llawn y sesiwn

Tasg 1 – Ychwanegu sefydliad

Amcan: asesu pa mor reddfol ac effeithiol yw'r dudalen 'ychwanegu eich sefydliad'.

Cyflwynwyd tudalen gyntaf y porth i'r cyfranogwyr, a gofynnwyd iddynt ychwanegu eu sefydliad am y tro cyntaf. Llwyddodd pob cyfranogwr i fewnbynnu gwybodaeth eu sefydliad, ac roedd y sefydliadau wedi'u cynrychioli'n gywir yn rhestr grynodedb y sefydliadau.

Roedd modd i bob cyfranogwr ddarllen y dudalen yn gyflym, a llenwi'r dudalen yn gyflym gan ddefnyddio llwybr clir tuag at ei chwblhau.

A number of minor errors were incurred as follows:

- Tudalen Rhestr o Sefydliadau
 - Bu i'r rhan fwyaf o'r cyfranogwyr fewnbynnu enw eu sefydliad, wedyn pwysu 'Ychwanegu Sefydliad', gan ddisgwyl i enw'r sefydliad ymddangos yn y dudalen nesaf.
 - Mae'r botwm 'Ychwanegu Sefydliad' o dan y rhestr o sefydliadau yn anodd dod o hyd iddo pan fo rhagor na 3 sefydliad yn y rhestr grynodedb gan fod gofyn sgrolio i lawr i ddod o hyd iddo. Angen ei symud i ben uchaf y dudalen.
- Tudalen Ychwanegu Sefydliad
 - Angen 'http://' ar gyfeiriad gwefan y sefydliad – pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen i hyn gael ei lenwi'n awtomatig.

Adborth:

- Cysylltiadau gwahanol mewn sefydliadau – nododd nifer o gyfranogwyr y gallai fod gan sefydliad wahanol gysylltiadau i wahanol brosiectau, ond un enw cyswllt yn unig fesul sefydliad y mae'r porth yn ei ganiatáu ar hyn o bryd. Gallai hyn arwain at ddyblygu sefydliadau.
 - Cafodd hyn ei nodi a'i drafod mewn sesiynau profion defnyddwyr blaenorol a chytunwyd bod hyn yn fater y bydd angen edrych arno ac os yw cyllid yn caniatáu i'r prosiect barhau.
- Cywirdeb y data – Mae risg bellach o ddyblygu sefydliadau drwy wahanol sillafu, llythrennau uwch/is ac ati.
 - Trafodwyd y byddai nodiadau esboniadol yn cael eu defnyddio i annog defnyddwyr i chwilio a gwirio am sefydliad presennol cyn ychwanegu un newydd.
 - Trafodwyd yr angen am rôl sicrwydd ansawdd / gweinyddwr – o leiaf am gyfnod byr o amser wedi i'r porth gael ei lansio.
- Gallai cyfeiriad y sefydliad (cod post yn unig ar hyn o bryd) fod yn ddefnyddiol i eraill sydd eisiau cysylltu â'r sefydliad o'r porth.

Tasg 2 – Ychwanegu prosiect

Amcan: asesu pa mor reddfol ac effeithiol yw'r dudalen 'ychwanegu prosiect'. Wedi i'r cyfranogwyr ychwanegu gwybodaeth eu sefydliad yn llwyddiannus, gofynnwyd iddynt ychwanegu manylion y prosiect am y tro cyntaf.



Ar gyfartaledd, dyma sgoriau'r cyfranogwyr:

Mesur	Amser i'w ddarllen	Gwallau	Amser i'w gwblhau	Llwybr
Sgôr	2/3 - darllen yn gymharol araf	2/3 - rhai gwallau	2/3 - llwyddo ychydig yn araf	2/3 - rhai achosion o wroddi ar y llwybr

Ni llwyddodd un cyfranogwr i gwblhau'r dasg yn yr amser a roddwyd. Ond llwyddodd pob cyfranogwr arall i gwblhau'r dasg a mewnbynnu gwybodaeth am y prosiect i'r porth yn llwyddiannus.

Holodd y cyfranogwyr ynghylch nifer o bwyntiau, ac arweiniodd hynny at wallau ac amser arafach i gwblhau'r dasg. Roedd yr ymholiadau/gwallau a gododd yn cynnwys:

- Maes dyddiad dechrau/gorffen i gael ei symud uwchben 'costau'r prosiect' er mwyn rhoi cost y prosiect mewn cyd-destun
- Angen diffiniadau / nodiadau esboniadol drwyddo draw:
 - Cost y prosiect
 - Sgoriau carfan yn erbyn unigolion
 - Amcanion / cyflawniad / canlyniadau / meini prawf llwyddiant
 - Amcanion a Chanlyniadau yn wahanol, ond mae'n ymddangos y cânt eu defnyddio heb wahaniaethu rhyngddynt. Canlyniadau heb fod yn wybyddus hyd nes i'r prosiect ddog i ben, amcanion wedi'u gosod ar y dechrau.
 - Sgorio 1-5 - angen eglurhad / esboniad pellach
 - Mae hefyd angen addasu'r geiriad hwn ar gyfer p'un ai unigolyn/carfan sydd wedi'i ddewis.
 - Sesiynau prosiect a gynigir (aneglur, tybio ei fod yn golygu presenoldeb. Enghraifft yn dangos presenoldeb)
- Angen amodau ar drosolwg y prosiectau.
- Dylid newid botwm 'Cyflwyno Ymholiad' i 'Cyflwyno Prosiect'.

Adborth:

- Y gallu i atodi ffeiliau i brosiect
 - Mae sefydliadau celfyddydol yn cipio llawer o ddata ansoddol i ategu prosiectau. Byddai'n ddefnyddiol bod modd atodi ffeiliau i brosiect i ategu / ychwanegu gwybodaeth bellach na ellir ei chipio drwy'r porth.
- Cadw
 - Bydd y porth yn diweddar mewn amser real, ond pwysleisiwyd y bydd llawer o'r sefydliadau a fydd yn defnyddio'r porth wedi'u cyfyngu gan waliau tân (awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac ati). Mae angen bod modd cadw'r wybodaeth eich hun er diogelwch.

- Angen profi'r porth oddi mewn i wal dân briodol.
- Cywirdeb y data
 - Yn aml, bydd mwy nag un enw ar brosiectau, a gellid eu dyblygu – angen bod modd cyfuno/ cyfateb prosiectau.
 - System sgorio yn oddrychol, nid oes modd cymharu data.
 - Angen bod modd hyfforddi / denu cefnogaeth sefydliadau.
 - Caniatâd i ychwanegu sefydliadau, a chysylltu sefydliadau â phrosiectau.
- Gallai rhagor nag un 'mesur llwyddiant' yn gysylltiedig â phob canlyniad/amcan – buddiol fyddai bod modd ychwanegu rhagor nag un mesur llwyddiant.
- Gallai nifer y cyfranogwyr amrywio drwy gydol y prosiect.
- 'Sesiynau prosiect a gynigir' yn ddryslyd – gallai fod yn well ar ffurf dyddiol/wythnosol/misol gydag amllder, hynny yw 2 x yr wythnos, 1 x y mis ac ati.

Adborth cyffredinol am y porth

- Cyfrifoldeb / cywirdeb y data
 - Pwy fydd yn gyfrifol am fewnbynnu data / sicrhau cywirdeb y data / gwneud unrhyw newidiadau?
 - Gwahanol lefelau mynediad yn y sefydliad, e.e. gweinyddwr lleol gyda'r gallu i newid prosiectau?
- Prosiectau'n methu
 - Pwysleisiodd un cyfranogwr na fyddai sefydliadau celfyddydol yn barod i dreulio amser yn mewnbynnu data o brosiect sydd wedi methu cyflawni ei amcanion os nad oes yn rhaid iddynt wneud hynny. Os yw'r porth am fod yn offeryn i godi proffil y celfyddydau cyfranogol, beth yw'r ysgogiad i rannu 'methiannau'? Er nad yw hyn yn fater technegol i Proper Design, mae angen rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r mater hwn. Mae angen annog y sector i gofnodi pob prosiect, nid y rhai a wnaeth yn dda yn unig, neu fel arall bydd yn peryglu hygredd yr offeryn.
 - E.e. Bydd meysydd presenoldeb yn erbyn cyfranogi yn cyfrannu at ddangos methiannau prosiectau.

Newidiadau

Gofynion ail-godio i Proper Design

- Symud botwm ychwanegu sefydliad (yn uwch)
- Llenwi <http://> yn awtomatig / ddim yn ofynnol
- Maes dyddiad dechrau/gorffen i'w symud uwchben 'costau'r prosiect' er mwyn rhoi cost y prosiect mewn cyd-destun
- Eglurhad o Amcan/Canlyniad
- Amodau trosolwg prosiect

